TEMPLED GRANT DYSGU PROFFESIYNOL/*PROFESSIONAL LEARNING GRANT TEMPLATE*

Ysgol/*School*	**Dyffryn Conwy**
Swm a ddyrannwyd/ *Allocated Sum*	**£28,093**

Amlinelliad o'r bwriadau/*Outline of intentions*	**1) Cydweithio dysgu proffesiynol dysgu ac addysgu. Datblygu sgiliau dysgu ac addysgu ac arweinyddiaeth drwy cynllun OLEVI. ar y cyd gyda Ysgol y Creuddyn ac Ysgol Glan Clwyd.** **Bwriad y cyllid: Rhyddhau 6 aelod o staff yn ystod 2019/20 i fynychu sesiynau dysgu proffesiynol, cyd-arsylwi dysgu, cynnal ymchwil gweithredol ac arfarnu er mwyn gwella dysgu ac addysgu a datblygu addysgeg traws-bynciol. Rhyddhau 2 hwylusydd er mwyn darparu y sesiynau dysgu proffesiynol ar y cyd gyda'r 2 ysgol arall.** **2) Gwella safonau mewn pynciau penodol – TGAU/Lefel A. Costau hyfforddiant blynyddol CBAC mewn pynciau ffocws (hyd at 12 pwnc yn ystod 2019/20). Costau llanw a mynediad.** **3) Datblygu dysgu digidol traws-ysgol: Buddsoddiad mewn arweiniad digidol gan ymarferwyr digidol cenedlaethol a lleol i holl staff; rhyddhau rheolwyr canol ac uwch i fynychu rhwydweithiau digidol cynradd-uwchradd a GWE. Rhyddhau staff er mwyn gallu cyd-gynllunio yr elfennau digidol ar draws y cwricwlwm. Ffocws ar HWB a Google Classrooms yn HWB. Costau llanw a rhyddhau ymarferwyr arweiniol/ymweliadau arfer dda.** **4) Datblygu arweinyddiaeth ganol ac uwch. Costau rhyddhau arweinwyr i ddilyn rhaglenni dysgu proffesiynol arweinyddiaeth ganol GWE, OLEVI, rhwydweithiau pwnc GWE mewn pynciau penodol a dysgu proffesiynol Academi Arweinyddiaeth Genedlaethol. 5 aelod o staff. Costau llanw.**

Yr Effaith a'r Canlyniadau a Ddisgwylir/ *Expected Impact and Outcomes*	**Cynnydd yn erbyn blaenoriaethau cynllun gweithredu ôl arolwg yr ysgol:** **1) Gwella dysgu ac addysgu a sicrhau cysondeb ar draws yr ysgol. Ffocws ar sicrhau her, datblygu cwestiynu ac addysgeg a rhannu arferion gorau o fewn a rhwng ysgolion partner. (Blaenoriaeth 3 ôl arolwg 2019/20).** **2) Codi safonau mewn pynciau penodol ar draws y cwricwlwm. (Blaenoriaeth 1 ôl arolwg 2019/20)** **3) Gwella sgiliau addysgu digidol holl staff ac o ganlyniad deilliannau digidol disgyblion (Blaenoriaeth 1 a 3 Cynllun gwella ôl arolwg 2019/20).** **4) Gwella miniogrwydd hunan arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant rheolwyr canol ac uwch (Blaenoriaeth ôl arolwg 4 a 5 2019/20). Nid oes deilliannau eto ond disgwylir fod cynnydd yn y canlyniadau Haf 2019 o ganlyniad i ddealltwriaeth gwell/cynyddol/cyfredol o ddisgwyliadau y prif arholwyr yn y cyrsiau penodol yn enwedig ble mae tanberfformiad wedi bod a hefyd ar gyfer gweithredu cam nesaf cyrsiau newydd.**

Gwerthuso/*Evaluation*

Beth sydd wedi gweithio'n dda/*What worked well*	**I'w gwblhau Ebrill 2020.**
Yr Effaith a'r Canlyniadau/ *Impact and Outcomes*	**I'w gwblhau Ebrill 2020.**
Y Cam Nesaf/*Next stage*	**I'w gwblhau Ebrill 2020.**